# Canllawiau Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cwmnïau Cynhyrchu Annibynnol

Gorffennaf 2025

**Cyflwyniad**
Ni ellir cyflawni na chynnal safonau iechyd a diogelwch uchel mewn cynyrchiadau oni bai bod pawb yn gwneud eu rhan. Mae hyn yn golygu cydnabod a derbyn yr ymrwymiadau a'r cyfrifoldebau y mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn eu gosod ar S4C ac ar y Cwmnïau Cynhyrchu a gomisiynir gan S4C.

**Cyfrifoldebau S4C**
Cyn comisiynu cynhyrchiad bydd S4C yn cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod gan y Cwmni Cynhyrchu annibynnol yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel – h.y. bod ganddo gymhwysedd diogelwch. Bydd S4C yn gwneud hyn drwy sicrhau bod yr holl Gwmnïau Cynhyrchu annibynnol sy'n cael eu contractio gan S4C wedi cwblhau Holiadur Iechyd a Diogelwch yn llwyddiannus a thrwy ofyn i Gwmnïau Cynhyrchu annibynnol, pan yn briodol, ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â gofynion anarferol iechyd a diogelwch cynhyrchiad fel rhan o'r broses gomisiynu.

**Cyfrifoldebau'r Cwmni Cynhyrchu Annibynnol**
Mae'r prif gyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd a diogelwch cynhyrchiad yn parhau gyda'r Cwmni Cynhyrchu. Rhaid i'r Cwmni Cynhyrchu sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gysylltiedig â / neu sy'n cael eu heffeithio gan y gweithgarwch cynhyrchu, gan gynnwys rheolaeth effeithiol dros gontractwyr a'r cyhoedd. Dylid sicrhau trefniadau cynllunio, cyfathrebu, cydweithredu a chydlynu da gan a rhwng yr holl bartïon sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad.

Dylai'r Cwmni Cynhyrchu:

- Fod â pholisi iechyd a diogelwch ar waith (rhaid cael polisi ysgrifenedig os oes yna 5 neu fwy o gyflogeion). Rhaid i'r polisi gynnwys datganiad polisi, adran ar y sefydliad sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am beth, ac adran ar drefniadau, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer asesu risg a monitro perfformiad.
- Sicrhau bod ffynhonnell gymwys o gyngor diogelwch ar gael, a bod eu cyngor yn cael ei dderbyn a'i roi ar waith pan fydd angen.
- Datgan yn eglur pwy sydd â rheolaeth dros yr adeiladau, y lleoliad a'r cyfleusterau.
- Bod â gweithdrefnau ar waith i sicrhau mai dim ond staff, gweithwyr llawrydd a chontractwyr cymwys sy'n cael eu cyflogi
- Sicrhau bod holl weithdrefnau, rheolau a chanllawiau iechyd a diogelwch y cwmni wedi cael eu rhannu â'r holl weithwyr llawrydd a chontractwyr a gyflogir.
- Canfod unrhyw anghenion hyfforddi iechyd a diogelwch ychwanegol sydd gan staff a gweithwyr llawrydd a sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu cyn dechrau ar y cynhyrchiad.
- Sicrhau bod unrhyw gontractwyr a gyflogir yn cael digon o wybodaeth am weithgarwch y cynhyrchiad arfaethedig, fel y gallant hwythau yn eu tro sicrhau bod ganddynt systemau gweithio diogel sy'n seiliedig ar asesiad risg (gellid eu gwahodd i ragchwiliadau, cyfarfodydd y cynhyrchiad yn ôl yr angen).
- Sicrhau bod asesiad risg llawn yn cael ei gynnal ar bob gweithgarwch sydd o dan reolaeth y cynhyrchiad, bod mesurau rheoli priodol yn cael eu rhoi ar

waith ar gyfer yr holl risgiau a ganfyddir a bod canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad yn cael eu cofnodi.

- Sicrhau bod gwybodaeth briodol sy'n gysylltiedig ag asesiadau risg yn cael ei chyfnewid rhwng y tim cynhyrchu a'r holl bartïon a effeithir (gall hyn gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu a phreswylwyr).
- Sicrhau bod trefniadau cyfathrebu a chydlynu digonol ar waith rhwng y gwahanol bartïon sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad.
- Sicrhau na fydd gwaith yn dechrau nes bod paratoadau digonol wedi'u cwblhau, gan gynnwys asesiad risg llawn o'r holl weithgareddau, dewis contractwyr cymwys a gweddill criw'r cynhyrchiad, aseinio cyfrifoldebau mewn ffordd eglur a threfnu ymarferion pan fydd angen.
- Sicrhau bod yr holl waith drwy gydol oes y cynhyrchiad yn cael ei wneud yn ddiogel, yn unol â safonau'r cwmni a / neu'r safonau a bennwyd gan asesiadau risg.
- Sicrhau bod staff a gweithwyr llawrydd yn cael gwybodaeth a goruchwyliaeth ddigonol drwy gydol y cynhyrchiad.
- Sicrhau bod pob damwain / digwyddiad yn cael eu hysbysu'n unol â pholisi a gofynion cyfreithiol y cwmni / y cynhyrchiad.
- Cyfleu unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar safonau iechyd a diogelwch y cynhyrchiad yn eglur gan roi cymaint o rybudd â phosibl.
- Monitro perfformiad iechyd a diogelwch drwy gydol y cynhyrchiad.
- Cymryd camau cywiro priodol os oes unrhyw ddiffyg mewn perfformiad.
- Sicrhau bod unrhyw bryderon ynglŷn â pherfformiad iechyd a diogelwch cyflogeion, gweithwyr llawrydd neu gontractwyr yn cael sylw ac yn cael eu rhannu fel bydd yn briodol.
- Ymgynghori a chynnwys cyflogeion mewn materion iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod oriau gwaith yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy gydol holl weithgarwch y cynhyrchiad.

**Mae'n ofynnol i gwmnioedd cynhyrchu hysbysu S4C o unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau / damweiniau Iechyd Diogelwch, Materion o Ymddygiad neu Aflonyddu drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen yma.**

**Y GADWYN GYFRIFOLDEB**

Mae'r prif gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch y cynhyrchiad yng ngofal y Cwmni Cynhyrchu. Mae cyfrifoldeb ar bawb sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad i sicrhau safonau iechyd a diogelwch ar gyfer eu gweithgareddau eu hunain ac am y gweithgareddau a reolir ganddynt. Dangosir y gadwyn gyfrifoldeb yn y siart llif isod:

Comisiynydd – S4C

Rhaid cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod gan y Cwmni Cynhyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel – h.y. cymhwysedd diogelwch.

Y Cwmni Cynhyrchu Annibynnol

Cyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch yn eu cynyrchiadau. Rhaid cynhyrchu polisi iechyd a diogelwch, sicrhau cydweithrediad, cydlynu a chyfathrebu; gwneud trefniadau i gynnwys cyflogeion mewn materion iechyd a diogelwch.

Dyrannu adnoddau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch. Dewis a phenodi criw cynhyrchu cymwys; dyrannu cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch mewn camau allweddol o'r cynhyrchiad i unigolion cymwys.

Sicrhau bod ganddynt fynediad parod at ffynhonnell gymwys o gyngor ar ddiogelwch, sy'n briodol ar gyfer y risgiau dan sylw.

Sicrhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal; cynllunio, gweithredu a monitro iechyd a diogelwch drwy gydol y cynhyrchiad.

Cynhyrchwyr, rheolwyr, goruchwylwyr, penaethiaid adran neu uwch aelodau'r criw

Cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i unigolion cymwys e.e. rheolwyr, goruchwylwyr, penaethiaid adran neu uwch aelodau penodol o'r criw i weithredu safonau iechyd a diogelwch drwy gydol y cynhyrchiad. Dylid sefydlu sianelau cyfathrebu clir â'r unigolion hynny i wybod, i ddeall ac i weithredu'r tasgau a ddirprwywyd iddynt hyd y safonau gofynnol.

| **Criw profiadol** | **Gweithwyr llawrydd (unigol, dim contractwyr)** | **Y Stiwdio** | **Contractwyr** | **Gweithwyr dibrofiad / Hyfforddeion** |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio offer diogelwch.<br><br>Dilyn gweithdrefnau diogelwch, rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau. | Fel y criw, a gweithio mewn cysylltiad â'r cynhyrchiad, cynorthwyo asesiadau risg o'u gweithgarwch, cydweithredu a chydlynu ag eraill a all gael eu heffeithio gan y gweithgarwch. | Mae Perchennog / Meddiannydd yr adeilad lle bydd y gwaith yn digwydd yn gyfrifol am ddarparu a chadw gweithle diogel gyda mynedfeydd ac allanfeydd diogel. | Mae cyflenwyr gwasanaethau a / neu offer yn gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau neu offer mewn cyflwr diogel, gyda gweithredwyr hyfforddedig a chymwys, am gynnal asesiadau risg, am ddarparu gwybodaeth berthnasol. Cydweithredu a chydlynu ag eraill a all gael eu heffeithio gan y gweithgarwch. | Angen cymryd gofal rhesymol am eu hunain ac eraill a all gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Cydweithredu â'r cyflogwr.<br><br>Bydd angen goruchwyliaeth arbennig. |

Gorffennaf 2025